## Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy:

Efallai y bydd cynhyrchwyr gwres adnewyddadwy domestig yn gymwys i gael y Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy (RHPP) a gaiff ei weinyddu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST). Ewch i'w gwefan yn www.energysavingtrust.org.uk/rhpp.

## Rhagor o wybodaeth:

**Rheoliadau RHI** legislation.gov.uk.

**Dogfen Bolisi RHI** www.decc.gov.uk/rhi.

**Taflen Ffeithiau RHI** www.ofgem.gov.uk/rhi.

**Dogfen Ganllaw RHI** www.ofgem.gov.uk/rhi

## Manylion Cyswllt

**Cymhwyster RHI a sut i wneud cais** - cysylltwch â thîm ymholiadau RHI Ofgem E-Serve ar 0845 200 2122, drwy anfon e-bost i RHI.Enquiry@ofgem.gov.uk, neu drwy fynd i'n gwefan yn **www.ofgem.gov.uk/rhi**.

**RHPP** - cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar 0800 512 012 neu ewch i'w gwefan yn **www.energysavingtrust.org.uk/RHPP**.

**Polisi RHI** - cysylltwch â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn correspondence@decc.gsi.gov.uk neu ewch i'w gwefan yn **www.decc.gov.uk/rhi,** neu drwy **www.direct.gov.uk**.

Department of Energy & Climate Change


Ofgem/Ofgem E-Serve
9 Millbank,
London
SW1P 3GE
Ffôn. 020 7901 7000

Yn yr Alban:
Cornerstone
107 West Regent Street
Glasgow G2 2BA
Ffôn. 0141 331 2678

Yng Nghymru:
1 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Cymru CF10 4DQ
Ffôn. 029 2044 4042


ofgem ofgem E-Serve

Hyrwyddo dewis a gwerth i bob cwsmer nwy a thrydan

**www.ofgem.gov.uk**

# Y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

## Cymorth ariannol ar gyfer technolegau gwres adnewyddadwy

Rhaglen amgylcheddol newydd gan y Llywodraeth yw'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI) sydd wedi'i chynllunio i gynyddu faint o bobl sy'n defnyddio technolegau gwres adnewyddadwy drwy roi taliadau cymhelliant i gynhyrchwyr gwres adnewyddadwy a chynhyrchwyr biomethan cymwys



ofgem ofgem E-Serve

Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

Tachwedd 2011

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) sy’n gyfrifol am weithredu a gweinyddu’r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ar ran y Llywodraeth.

## Pwy all gael taliadau’r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy:

1 cynhyrchydd biomethan
2 perchennog gosodiad sy’n cynhyrchu gwres ar yr amodau canlynol:

- ✓ perchennog y gosodiad yw’r ymgeisydd
- ✓ mae’r gosodiad o fath o dechnoleg a maint cymwys (gweler y tabl)
- ✓ cafodd y broses o osod yr offer ei chwblhau a’i chomisiynu’n gyntaf ar neu ar ôl 15 Gorffennaf 2009
- ✓ mae’n rhaid defnyddio’r gwres i wresogi lle, dŵr neu broses
- ✓ mae’n rhaid defnyddio’r gwres mewn adeilad
- ✓ nid yw’r gosodiad wedi cael grant o gronfeydd cyhoeddus ac ni fydd yn cael grant o’r fath
- ✓ mae’n rhaid i’r offer fod yn newydd ar adeg ei osod
- ✓ mae’n rhaid i’r system wresogi ddefnyddio hylif neu ager i ddarparu gwres
- ✓ ar gyfer gosodiadau o 45kWth ac is, mae’n rhaid i’r cyfarpar a’r gosodwr fod wedi’u hardystio o dan y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MCS) (neu gynllun cyfatebol)

## Sut i wneud cais:

Dylech wneud cais i Ofgem gan ddefnyddio ein system ar-lein, sydd ar gael drwy we-dudalen Ofgem ar y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Bydd dulliau gwneud cais ar bapur ar gael i ddarpar gyfranogwyr na allant ddefnyddio’r rhyngrwyd.

Gwnewch gais yn: www.ofgem.gov.uk/rhi

## Technolegau cymwys a lefelau cymorth

| Enw’r tariff | Technoleg gymwys | Meintiau cymwys | Cyfradd y tariff (ceiniog/kWh) |
|---|---|---|---|
| Biomas bach | Biomas solet; Gwastraff Solet Trefol (gan gynnwys Gwres a Phŵer Cyfunedig) | Llai na 200 kWth | Haen: **7.9**<br>Haen: **2.0** |
| Biomas canolig | | Rhwng 200 kWth a (ond nid yn cynnwys) 1,000 kWth | Haen: **4.9**<br>Haen: **2.0** |
| Biomas mawr | | 1,000 kWth ac yn fwy | **1** |
| Pympiau gwres bach | Pympiau gwres o’r ddaear; Pympiau gwres o’r dŵr geothermol | Llai na 100 kWth | **4.5** |
| Pympiau gwres mawr | | 100 kWth ac yn fwy | **3.2** |
| Systemau thermol solar | Systemau thermol solar | Llai na 200 kWth | **8.5** |
| Biomethan | Chwistrellu biomethan a llosgi bionwy, ac eithrio o nwy tirlenwi | Biomethan ar bob graddfa, llosgi biomas <200 kWth | **6.8** |

## Mesuryddion:

Mae’n rhaid i gyfranogwyr ddarparu darlleniadau mesuryddion i’n galluogi i gyfrifo faint o wres cymwys a gynhyrchir, neu faint o fiomethan cymwys a chwistrellir, bob chwarter.

## Dogfennau ategol y gall fod angen i chi eu darparu:

- ✓ manylion banc i gael taliad
- ✓ manylion am yr offer sy’n bodoli (e.e. tystysgrif comisiynu/anfonebau prynu)
- ✓ tystysgrif sy’n profi bod eich mesuryddion yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID) Dosbarth 2
- ✓ diagram sgematig clir o’ch system wresogi
- ✓ adroddiad mesuryddion annibynnol (ar gyfer gosodiadau cymhleth dros 45kW))